

Galw cynhyrchion cig Muscle Food yn ôl

Penderfynodd Muscle Food alw'r cynhyrchion yn ôl, yn dilyn archwiliad dirybudd gan yr ASB o'u cyflenwr, DB Foods. Roedd gennym bryderon am weithdrefnau DB Foods ar gyfer dyddiadau 'defnyddio erbyn' ar rai cynhyrchion nad oedd yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

Mae Muscle Food yn cyflenwi cynhyrchion cig drwy ei wefan yn uniongyrchol i'r cyhoedd, ac mae'r busnes yn cysylltu â phob cwsmer y mae hyn wedi effeithio arnynt i roi gwybod iddynt bod y cynhyrchion wedi'u galw yn ôl.

Rydym yn cynghori pobl sydd wedi prynu'r [cynhyrchion hyn](#) i beidio â'u bwyta. Bydd Muscle Food yn trefnu bod rhywun yn dod i nôl y cynhyrchion oddi wrth bob cwsmer, ac yn rhoi ad-daliad llawn iddynt am yr eitemau.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi bod pobl wedi mynd yn sâl yn sgil bwyta cig wedi'i gyflenwi gan DB Foods. Rydym yn parhau i ymchwilio i'w gweithdrefnau ynghyd ag awdurdodau lleol, a bydd camau pellach yn cael eu cymryd yn ôl yr angen.

Mae galw'r cynhyrchion dan sylw yn ôl yn ymateb cymesur i'r hyn a ganfuwyd. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth o broblemau ehangach ar draws safleoedd DB Foods ac nid oes angen i ni gymryd unrhyw gamau pellach a fyddai'n effeithio ar y busnes. Mae cynhyrchion yn parhau i gael eu dosbarthu o safleoedd DB Foods ac mae hyn yn cael ei oruchwylio gan staff yr ASB.

Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban eisoes wedi cyhoeddi adolygiad o ffatrioedd torri a storfeydd oer yn dilyn ymchwiliadau eraill i'r sector cig. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion am yr adolygiad ddiwedd y mis, a bydd y canlyniadau ar gael yn llawn i'r cyhoedd.

Rydym yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â chymdeithasau'r diwydiant ac i egluro'r cyfrifoldeb sydd gan eu haelodau i gynhyrchu cig yn ôl y rheoliadau.

[Product recall notice: Muscle Food recalls certain meat products due to incorrect use-by date labelling](#)